| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 21 Ionawr 2010 |
| **TEITL** | Rhybudd o Gynnig i leoli carchar yn Nhonfannau, Tywyn |
| **AWDUR** | D P Lewis - Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth gefndir i'r Cyngor i'w gynorthwyo i ystyried y rhybudd o gynnig. |

## 1 Cefndir

1.1 Cyflwynir yr adroddiad i sicrhau gwybodaeth berthnasol i'r drafodaeth ynglŷn â rhybudd o gynnig sydd dan sylw gan y Cyngor.

1.2 Bydd aelodau yn ymwybodol o'r drafodaeth flaenorol ynglŷn â lleoli carchar ar safle Ferodo, Caernarfon gyda'r safle yn cael ei argymell yn dilyn trafod gwahanol opsiynau ar draws Gogledd Cymru. Yn anffodus bu newid meddwl ynglŷn â safle Ferodo a bellach mae trefniadau newydd yn eu lle i adnabod opsiynau newydd.

1.3 I gynorthwyo'r drafodaeth cynigir gwybodaeth dan 4 pennawd:-

(a) Gofynion y Weinyddiaeth Cyfiawnder
(b) Manylion ynglŷn â safle Tonfannau
(c) Ystyriaethau Cymdeithasol, Diwylliannol ac Economaidd.
(ch) Trefniadau penderfynu ar safle.

## 2 Gofynion y Weinyddiaeth Cyfiawnder

2.1 Pan gynigwyd safle Ferodo y gofyn oedd am safle fyddai yn addas i tua 700 o garcharorion a derbyniwyd nodweddion safle fyddent yn chwilio amdanynt wrth ystyried y gwahanol opsiynau. Bellach mae'r niferoedd wedi newid gyda'r nod o ddarparu safle i 1500 o garcharorion fyddai yn gwasanaethu Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. O'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael mae tua 700 o drigolion Gogledd Cymru mewn carchardai ar draws Cymru a Lloegr.

2.2 Bwriad y Weinyddiaeth Cyfiawnder fyddai darparu i ddynion yn unig er adnabuwyd angen dybryd i gael darpariaeth i fenywod a throseddwyr ifanc.

2.3 Nid oes newid yn y nodweddion safle gwreiddiol (copi ynghlwm yn Atodiad 1) heblaw am y maint gyda'r disgwyliad bellach i adnabod safle o tua 35 acer.

**3 Safle Tonfannau, Tywyn**

3.1 Cyn-wersyllt y fyddin yw Safle Tonfannau sydd wedi ei lleoli tua 3 milltir i'r gogledd-orllewin o dref Tywyn. Mae mynediad i'r safle ar hyd ffordd ddi-ddosbarth oddi ar yr A483 rhwng Tywyn a phentref Llwyngwril. Mae'r ffordd yma, ynghyd a rheilffordd y Cambrian yn rhannu'r safle yn ddwy.

3.2 Bu'r safle yn brysur iawn ar un cyfnod, a phan geuwyd y gwersyllt ei ar ddiwedd y 1960au, deallir fod tua 250 o swyddi wedi eu colli. Dros y 35 mlynedd diwethaf, cafod rhan helaeth o'r adeiladau eu dymchwel a dychwelwyd defnydd amaethyddol i'r safle.

3.3 Mae maint y safle yn ymestyn i tua 64 hectar.

3.4 Deallir fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gwerthu'r safle rai blynyddoedd yn ol, ac fod y safle mewn perchnogaeth breifat ers hynny.

**4 Ystyriaethau Cymdeithasol, Diwylliannol ac Economaidd**

4.1 Rhagwelir y byddai carchar o 1500 yn creu tua 1000 o swyddi uniongyrchol gyda phosibilrwydd o swyddi ychwanegol i gyflenwi a gwasanaethu'r carchar. Byddai rhain yn swyddi sefydlog, ac yn talu cyflogau uwchlaw'r cyfartaledd lleol. Dylid nodi yn ogystal y byddai amrywiaeth o swyddi ar gael, yn cynnwys swyddi rheolaethol, swyddi wardeiniaid carchar, swyddi gweinyddol, swyddi cyllid, swyddi cefnogol fel coginio, glanhau ayb.

4.2 Ar hyn o bryd, mae 8,286 o swyddi yn ardal Teithio I Waith Dolgellau/Abermaw a Machynlleth/Tywyn, gyda 5,018 yn llawn-amser a 3,268 yn rhan-amser.

4.3 Yn mis Tachwedd 2009, roedd ychydig dros 420 yn ddiwaith yn yr ardaloedd Teithio i Waith yma.

4.4 Rhwng y carcharorion a'r rhai mewn swyddi, mae potensial i greu canolfan fyddai yn lleoli yn agos i 2,500 o bobl. O ystyried natur wledig yr ardal, byddai gofyn asesu effeithiau'r datblygiad ar gymeriad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac ieithyddol yr ardal. Rhaid cofio bod nifer y caracharorion sydd i'w lleoli yn y carchar newydd yn ddwbl yr hyn a oedd mewn golwg ar gyfer y carchar arfaethedig yng Nghaernarfon – ac felly, bydd yr effeithiau yn ogystal yn dipyn gwahanol.

## 5 Trefniadau Penderfynu ar Safle

5.1 Mae gwahoddiad wedi'i ymestyn i awdurdodau Gogledd Cymru gynnig safleoedd teimlir fyddai'n cyfarfod y gofynion erbyn tua chanol Chwefror 2010.

5.2 Yn dilyn hynny bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried y safleoedd gyda'r nod o ddod i gasgliad a phenderfynu erbyn mis Mehefin/Gorffennaf. Deallir fod Asiantwyr wedi'u penodi i weithredu ar eu rhan ac i gynhyrchu rhestr o safleoedd sydd ar gael yn y Gogledd Orllewin.